Troellwr

Sut i wneud troellwr:

1. 1. Argraffwch y dudalen hon ar gerdyn tenau, gwyn a thorri o amgylch y templed isod. Os hoffech chi wneud llawer o ddefnydd o'r troellwr, gallwch chi ei lamineiddio er mwyn iddo bara'n hirach.
2. 2. Gan ddefnyddio pin bawd, prociwch dwll drwy ganol y troellwr. Gwthiwch y pin drwy'r twll a hollti'r pennau. Ychwanegwch dâp gludiog i'w gadw yn ei le.
3. 3. Rhowch glip bapur dros ben y pin a dechreuwch droelli!

Sut i chwarae:

1. 1. Troellwch y pwyntydd. Yr anifail y mae'n glanio arno yw'r anifail mae angen i chi ddiwallu ei anghenion.
2. 2. Troellwch y pwyntydd eto. Beth ddylech chi ei ddarparu i'ch anifail i ddiwallu'r angen rydych chi wedi glanio arno?

E.e. Os byddwch chi'n glanio ar gwningen ac yna'n glanio ar yr eicon cwmnïaeth, byddai angen i chi ddarparu ffrind cwningen i'ch cwningen.



Yr Amgylchedd
Darparu lle addas y gall anifeiliaid anwes ei alw'n gartref.

Iechyd
Amddiffyn anifeiliaid anwes rhag poen a dioddefaint.

Ymddygiad
Caniatáu i anifeiliaid anwes ymddwyn fel y bwriadodd natur (chwarae, rhedeg, palu neu hedfan).

Cwmnïaeth
Cynnig ffrindiau i anifeiliaid anwes sydd eisiau cwmnïaeth, a lle i anifeiliaid anwes nad ydyn nhw eisiau cwmni.

Deiet
Sicrhau bod anifeiliaid anwes yn cael y bwyd iawn a'r symiau cywir ohono, yn ogystal â dŵr ffres a glân.

#GetPetWise

© The People's Dispensary for Sick Animals 12/21 Elusen gofrestredigrhif 208217 a SC037585